OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 89 (Cy. 13)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *30th January 2020* |
| *Laid before the National Assembly for Wales - -* | *31st January 2020* |

*Coming into force in accordance with regulation 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(4), 16(1)(a) ac (e) a (2)(b), 17(1) a (2), 26(1) a (3) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**) a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(**4**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau penodol at ddarpariaethau Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/127 dyddiedig 25 Medi 2015 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol ac ynghylch gofynion o ran gwybodaeth sy'n ymwneud â bwydo babanod a phlant ifanc(**5**) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adran 6(4) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ("Deddf 1990") gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p. 40), paragraff 10(1) a (3)(a) o Atodlen 5, ac Atodlen 6, i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999") ac O.S. 2002/794. Diwygiwyd adran 16(1) o Ddeddf 1990 gan baragraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 17 o Ddeddf 1990 gan baragraffau 7, 8 a 12 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 48(1) gan baragraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(**2**) Mae'r swyddogaethau hynny a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, o ran Cymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol a oedd yn eu trefn yn ymwneud ag iechyd yn Lloegr a bwyd ac iechyd yng Nghymru) bellach yn arferadwy o ran Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) 1972 p. 68 ("Deddf 1972"). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006. Fe'i diwygiwyd gan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 a Rhan 1 o'r Atodlen iddi, a chan O.S. 2007/1388.

(**4**) O.S. 2005/1971, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**5**) OJ Rhif L 25, 2.2.2016, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/828 (OJ Rhif L 137, 23.5.2019, t. 12).

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**6**).

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**7**), wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**6**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 a pharagraff 21 o Atodlen 5 iddi.

(**7**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/1243 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 198, 25.7.2019, t. 241).

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.